Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent
Gwent Regional Partnership Board

# TALIADAU UNIONGYRCHOL

## Cymorth

**Canllaw Cymorth Taliadau Uniongyrchol**

Gall penderfynu a ddylech ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i drefnu eich gofal a'ch cymorth eich hun neu os hoffech i'r Awdurdod Lleol drefnu hyn ar eich cyfer, neu os hoffech ychydig o'r ddau, wneud i chi deimlo'n llethol. Nid ar chwarae bach y mae gwneud y penderfyniad hwn, ac ni ddylid gwneud i unrhyw un deimlo bod yn rhaid iddynt ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol.

I'ch helpu i benderfynu a hoffech gael Taliad Uniongyrchol, mae gan bob Awdurdod Lleol Dîm Cymorth pwrpasol a all roi gwybodaeth a chyngor i chi am daliadau uniongyrchol a byddwch hefyd yn cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau, ac ati. Os byddwch yn dewis derbyn taliad uniongyrchol, bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cyfeirio atoch fel Derbynnydd Taliad Uniongyrchol.

**Beth mae'r Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol yn ei wneud?**

Gall lefel y cymorth a'r cyngor y byddwch yn ei dderbyn amrywio yn ôl y ffordd y byddwch yn dewis defnyddio'ch Taliad Uniongyrchol. Er enghraifft, bydd cymorth a chyngor yn wahanol os yw rhywun yn:

- Cyflogi staff (Cynorthwywyr Personol) yn uniongyrchol i helpu gyda gofal a chymorth.
- Prynu gwasanaethau asiantaeth gofal cofrestredig neu micro-ofalwr.
- Trefnu gofal dydd, gweithgaredd cymdeithasol, gofal seibiant, gofal preswyl.
- Prynu offer.
- Cael gofal a chymorth cymysg, mae peth yn cael ei drefnu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, a pheth yn cael ei drefnu gennych chi. Diwallu anghenion a nodwyd, y cytunwyd arnynt ac sy'n gymwys, mewn ffordd bwrpasol i'r unigolyn.



Mae'r gwasanaeth cymorth yn eich galluogi chi, yr un sy'n Derbyn Taliadau Uniongyrchol i fod yn annibynnol, datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder wrth weinyddu'r Taliad Uniongyrchol a gallwch ddisgwyl y canlynol gan y tîm:

- Agwedd 'gallwn ni wneud hyn', sy'n hyrwyddo: *Llais, Dewis a Rheolaeth.*
- Cymorth cyfeillgar, defnyddiol: *Gweithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth o bobl a sefydliadau.*
- Gwybodaeth hygyrch o ansawdd da: *Derbyn gwybodaeth mewn sawl fformat.*

Pan fydd Derbynnydd Taliadau Uniongyrchol yn cyflogi Cynorthwywyr Personol, mae'r cymorth sy'n cael ei rhoi yn sicrhau bod pob parti yn deall cyfrifoldebau'r gyflogaeth.

Mae'n bwysig, os byddwch yn dewis bod yn Dderbynnydd Taliad Uniongyrchol yna rydych yn ymrwymo i weithio gyda'r gwasanaeth cymorth a sefydliadau trydydd parti priodol eraill lle bo hynny'n berthnasol.

Gall cyflogi Cynorthwywyr Personol yn uniongyrchol fod yn un o'r trefniadau mwyaf gwerth chweil i lawer o bobl. Os ydych chi'n cyflogi Cynorthwyydd Personol, bydd y tîm cymorth yn rhoi cymorth sy'n iawn, ar bob cam:

- Cymorth cychwynnol o ran gwybodaeth.
- Cymorth o ran recriwtio, disgrifiadau swydd, hysbysebu ac ati.
- Dewis darparwr cyflogres, Yswirwyr Atebolrwydd
- Datblygu cyfnod sefydlu a dod o hyd i hyfforddiant i Gynorthwywyr Personol.
- Cymorth cychwynnol ar drefnu contractau gwaith a dogfennau eraill.
- Hwyluso'r broses o gwblhau gwiriadau cyflogaeth perthnasol yn cynnwys gwiriadau Datgelu a Gwahardd.



**Rheoli'r arian:** Caiff hyn ei drafod yn fanwl a bydd cyfle i chi drafod opsiynau i sicrhau eich bod yn hyderus ac yn gyfforddus cyn iddynt symud ymlaen.

**Dod â chymorth i ben:** Mae cymorth ar gael bob amser. Fodd bynnag, ar ôl cyfnod cychwynnol, bydd y Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol yn camu'n ôl ac yn caniatáu i Dderbynwyr Taliadau Uniongyrchol ffynnu yn eu rôl newydd. Mae'r gefnogaeth barhaus gan gyflogres ac yswirwyr atebolrwydd bob amser ar gael.

### Cyfrifoldebau'r derbynnydd Taliadau Uniongyrchol

Mae Derbynwyr Taliadau Uniongyrchol yn dewis Taliadau Uniongyrchol oherwydd y dewis, y rheolaeth a'r hyblygrwydd y maent yn eu rhoi. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Dderbynnydd Taliad Uniongyrchol ymrwymo i'r canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth i gael y gorau o Daliadau Uniongyrchol.
- Deall y telerau ac amodau sydd ynghlwm wrth dderbyn Taliadau Uniongyrchol a amlinellir yn y Cytundeb rhwng Derbynnydd y Taliad Uniongyrchol a'r Awdurdod Lleol.
- Datblygu dealltwriaeth dda o'r cyfrifoldebau cyflogaeth wrth gyflogi Cynorthwywyr Personol.
- Cytuno i ofyn am help a chyngor mewn modd amserol.

## Cysylltiadau Defnyddiol

Mae gan bob Awdurdod Lleol Dimau Taliadau Uniongyrchol profiadol os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os oes angen gwybodaeth arnoch. Byddant yn rhoi cymaint o help a sicrwydd i chi ag sydd ei angen. Darperir cymorth ychwanegol hefyd gan y cwmnïau Yswiriant Atebolrwydd, cwmnïau cyflogres a gan ffynonellau allanol eraill.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
**Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
directpayments@blaenau-gwent.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Swyddfa'r Tîm Taliadau Uniongyrchol**
directpayadvisors@caerphilly.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy Tîm Taliadau Uniongyrchol**
mccdirectpaymentteam@monmouthshire.gov.uk

**Cyngor Dinas Casnewydd Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol**
direct.payments@newport.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**
**Tîm Byw'n Annibynnol (Taliadau Uniongyrchol)**
independentlivingteam@torfaen.gov.uk

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD · Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council · monmouthshire sir fynwy · TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN · CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI